

Rhif: WG40788



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

### Gwaharddiad ar Werthu Cŵn a Chathod Bach drwy Drydydd Parti

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn canol nos ar 17 Awst 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynigion i gyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Mae hyn yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 19 Chwefror – 17 Mai 2019 a chafwyd 458 ymateb, y mwyafrif ohonynt yn cefnogi'r gwaharddiad. Roedd yr ymgynghoriad yn tynnu sylw at broblemau eraill oedd angen eu hymchwilio ymhellach megis gorfodi a magu.

Yr hyn a olygir gan werthiant trydydd parti'n bennaf yw'r rhai sy'n cael eu gwerthu gan siopau anifeiliaid anwes a masnachwyr eraill sydd heb fridio'r torraid.

Gall gwerthiant masnachol drwy drydydd parti fod yn gysylltiedig ag amodau lles salach o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridwr. Er enghraifft, gall cyflwyno i sawl amgylchedd anghyfarwydd a'r tebygolrwydd o sawl taith gyfrannu at fwy o berygl o glefyd a diffyg cymdeithasoli ac ymglyfarwyddo.

Gall rhywun brynu ci neu gath fach o ffynhonnell gyfreithlon mewn sawl ffordd:

- 1) Gan fridiwr cŵn trwyddedig (y rhai sydd â thair gast fridio o leiaf)
- 2) Gan fridiwr didrwydded (y rhai â llai na thair gast fridio neu'r rhai sy'n bridio cathod)
- 3) Gan werthwr trydydd parti (rhywun sydd heb fridio'r ci neu'r gath fach ei hun)
- 4) Gan ganolfan achub/ailgartrefu.

Mae sicrhau safonau lles ar draws y diwydiant cyfan yn hanfodol. Agwedd bwysig o'r ddeddfwriaeth hon yw hyrwyddo magu cyfrifol a sicrhau bod cŵn bach yn cael eu magu mewn amodau addas. Mae cyfoethogi bywydau a chymdeithasu cŵn magu a chŵn bach yn iawn yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod gan anifail anwes gymeriad cytbwys. Mae mwyafrif y magwyr trwyddedig yn cydnabod pwysigrwydd yr amodau sydd angen iddynt gydymffurfio â hwy ac yn ceisio bodloni'r amodau hynny a ble yn bosibl fynd y tu hwnt I hyn gyda buddsoddi ychwanegol. Mae'n bwysig bod y busnesau hyn yn cael masnachu o fewn diwydiant sy'n deg a chydadd.

Yr atyniad emosiynol i brynu ci neu gath fach yw'r prif reswm pam mae pobl yn ildio i brynu anifail gan rywun y maent yn gwybod na ddylent brynu ganddo weithiau. Mae'n debyg mai eu prif reswm dros wneud hynny yw lles yr anifail ac mae'r rhai sy'n gwerthu'r anifail yn chwarae ar y dynfa emosiynol hon.

Gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rhai sy'n weithwyr anifeiliaid anwes trwyddedig; yng Nghymru mae ganddynt drwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/14-15/35>

Mae'r term 'masnachol' yn golygu gwerthu fel rhan o fusnes, nid elw. Gwerthwyr trydydd pari yw pobl na wnaethant fridio'r ci neu'r gath fach ac sy'n gweithredu fel 'dynion canol' rhwng y bridwyr a'r cyhoedd sy'n prynu. Gallai hyn fod ar ffurf amgylchedd siop anifeiliaid anwes 'draddodiadol', deliwr yn prynu gan fridwyr ac yn gwerthu ymlaen i siopau neu'r cyhoedd heb fod angen bod yno yn gorfforol, neu weithiau fridwyr cŵn trwyddedig sy'n gwerthu toreidiau ychwanegol o gŵn nad ydynt yn eiddo iddynt. Mae'r holl sefyllfaoedd hyn yn debygol o fod at ddibenion masnachol a byddent angen trwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 ar hyn o bryd.

Bydd y cynigion sy'n cael eu hystyried yn golygu newid trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, gan gynnwys cŵn a chathod bach, a bydd hefyd yn arwain at wahardd gwerthu cŵn a chathod bach o oedran arbennig. Ni all y gwaharddiad arfaethedig ar werthiannau trydydd parti ynddo'i hun fynd i'r afael â'r holl broblemau cymhleth cysylltiedig yn enwedig â masnachu cŵn bach. Byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn un rhan o gorff o waith sy'n gysylltiedig â gwella safonau lles sefydliadau bridio cŵn a mynd i'r afael â rhwystrau gorfodi.

Mae bridio cathod a chŵn yn fusnes cyfreithlon a thra bod y rhan fwyaf o fridwyr yn sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu, nid yw rhai yn cyrraedd y safonau gofynnol. Os yw Llywodraeth Cymru am wneud gwahaniaeth yng Nghymru rydym am sicrhau nad oes unrhyw fylchau y gall pobl ddiogwyddor fanteisio arnynt felly mae eich sylwadau chi'n werthfawr iawn ar gyfer llywio'r camau nesaf.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ac yn gofyn i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd gennych a allai ein helpu i ddeall y sefyllfa'n well.

Rydym yn croesawu sylwadau gan blant a phobl ifanc, felly rydym wedi creu holiadur i bobl ifanc ar y newid arfaethedig. Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau sy'n trafod yn rheolaidd gyda plant a phobl ifanc.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon, drwy gwblhau holiadur ar-lein, neu ysgrifennu at y tîm gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

I weld yr ymgynghoriad ar-lein, yn cynnwys holiadur i gyflwyno'ch ymateb, ewch i <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

**Manylion cysylltu** Am ragor o wybodaeth:

**Cyfeiriad:**

Tîm Polisi Anifeiliaid Anwes  
Cangen Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**E-bost:** [companionanimalwelfare@gov.wales](mailto:companionanimalwelfare@gov.wales)

**Ffôn:** 0300 060 4400

## Beth yw'r prif faterion?

Mae safonau lles anifeiliaid uchel yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

O dan y rheolau presennol, mae'n bosibl i rywun werthu cŵn a/neu gathod bach yng Nghymru heb iddynt eu bridio eu hunain. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, mae 'ci bach' a 'cath fach' yn golygu cŵn a chathod hyd at 6 mis oed. Bydd hyn yn rhoi cysondeb â'r ddeddfwriaeth bresennol (fel a ddiffinnir yn Rhan 1, Adran 3 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Magu Cŵn) (Cymru) 2014<sup>2</sup>) a bydd yn lleihau problemau ar draws ffiniau gyda Lloegr sydd wedi defnyddio yr un diffiniad hefyd.

Gall gwerthu drwy werthwyr trydydd parti fod yn gysylltiedig ag amodau lles salach, yn cynnwys diffyg cymdeithasoli ac ymgyfarwyddo, mwy o berygl o glefyd, a mwy o berygl o fod yn agored i ddigwyddiadau sy'n peri straen pan yn ifanc gan arwain at broblemau ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall y cŵn a'r cathod bach wynebu sawl taith hefyd cyn cyrraedd cyrchfan y gwerthu terfynol.

Bu galw gan y cyhoedd a sefydliadau lles i'r llywodraeth ymyrryd er mwyn codi safonau lles yng Nghymru. Rhoddwyd cynnig ar opsiynau anrheoleiddiol eraill eisoes, er enghraifft ymgyrchoedd addysgol gan brif randdeiliaid ac ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru (ymgyrch #ArosAtalAmddiffyn) yn annog prynwyr i brynu'n gyfrifol (e.e. gweld yr anifail gyda'i fam) ond llwyddiant cyfyngedig a gafwyd.

Ar hyn o bryd, gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rhai sydd â thrwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951. Mae Awdurdodau Lleol Cymru yn penderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio o dan yr amodau canlynol:

- rhaid cadw anifeiliaid mewn llety sy'n addas bob amser o ran maint, tymheredd, golau, awyru, glendid
- rhaid cyflenwi bwyd a diod addas digonol i anifeiliaid a (chyn belled ag y bo angen) ymweld â nhw mor gyson ag sy'n addas;
- ni fydd anifeiliaid, sy'n famaliaid, yn cael eu gwerthu'n rhy ifanc;
- rhaid cymryd yr holl ragofalon rhesymol i atal lledaeniad clefydau heintus ymysg anifeiliaid;
- rhaid cymryd camau priodol os bydd tân neu argyfwng arall.

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006")<sup>3</sup> yn gosod dyletswydd hefyd ar rywun sy'n gyfrifol am anifail i sicrhau ei les. Mae'n rhaid i berson gymryd camau fel sy'n rhesymol mewn unrhyw amgylchiadau i sicrhau bod anghenion statudol anifail yn cael eu diwallu.

Mae yna bryderon bod gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yn gysylltiedig ag amodau lles salach ar gyfer yr anifail o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Mynegwyd pryderon gan nifer o elusennau lles anifeiliaid a chyflwynwyd tystiolaeth gan RSPCA Cymru, Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru ac Awdurdodau Lleol. Mae CARIAD a Puppy Love wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd hefyd sy'n dangos sut y gallai Cymru elwa ar gyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti.

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/regulation/3/made>

<sup>3</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>

Daeth mwy o bwysau i gyflwyno gwaharddiad ers cyflwyno ymgyrch ‘Lucy’s Law’ yn Lloegr. Roedd yr ymgyrch yn galw am waharddiad di-oed ar werthu cŵn bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymuno â’r ymgyrch. Casglodd deiseb yn gysylltiedig â’r ymgyrch yn Lloegr dros 100,000 o lofnodion a bu’n destun dadl yn senedd y DU ar 21 Mai 2018. Cyflwynwyd y gyfraith newydd gerbron y senedd ar 13 Mai a daeth i rym yn Lloegr ar 6 Ebrill 2020, ac nid yw masnachwyr masnachol trwyddedig yn cael gwerthu cŵn neu gathod bach fel anifeiliaid anwes mwyach os ydynt yn llai na 6 mis oed a heb gael eu bridio gan y gwerthwr.

## Cefndir a’r sefyllfa bresennol

Ar 19 Mehefin 2018, cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, Ddatganiad Llafar<sup>4</sup> yn cyhoeddi ei hymrwymiad i archwilio opsiynau newydd i wahardd gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yng Nghymru. Ar 13 Tachwedd 2018, cyhoeddodd<sup>5</sup> Ysgrifennydd y Cabinet y byddai ymgynghoriad yn cael ei lansio i gasglu gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi ac i weld ble fyddai ymyriad y Llywodraeth yn cael yr effaith fwyaf.

Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar wahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti ar 19 Chwefror 2019 a daeth i ben ar 17 Mai 2019<sup>6</sup>. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar dystiolaeth ynglŷn â pha gam y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn y diwydiant bridio i fynd i’r afael â phryderon am les anifeiliaid. Dangosodd ymatebion yr ymgynghoriad bod yna gefnogaeth eang i wahardd gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Mae’r Crynodeb o Ymatebion<sup>7</sup> gan aelodau’r cyhoedd a phrif sefydliadau lles anifeiliaid ledled Cymru ac mae’r DU yn darparu data sylweddol sydd wedi’i ystyried ac, yn hytrach nac ail-gynhyrchu’r data hwnnw yn y ddogfen hon, dylid ei ddarllen ar y cyd â’r ymgynghoriad hwn.

Gwelwyd hyn fel un yn unig o’r camau y gellid eu cymryd i wella lles cŵn a chathod bach mewn safleoedd bridio.

Dyma’r prif bryderon a fynegwyd yn yr ymatebion:

- Amodau gwael cyffredinol mewn safleoedd bridio
- Mewnforio cŵn bach yn anghyfreithlon
- Bridio cŵn a chathod â chyflyrau genetig sy’n achosi problemau lles
- Agwedd y cyhoedd/prynu anifeiliaid anwes yn fyrbwyl
- Problemau adnoddau ar gyfer gorfodi
- Dryswch gyda’r system gyfredol a chymhwysedd ar gyfer trwyddedu
- Y gallu i olrhain cŵn a chathod yn ôl i’r bridiwr
- Problemau gyda gwerthu ar-lein

---

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/datganiad-llafar-lles-anifeiliad-anwes>

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/datganiad-llafar-lles-anifeiliaid>

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/gwerthiant-trydydd-parti-cwn-chathod-bach>

<sup>7</sup> <https://gov.wales/third-party-sales-puppies-and-kittens>

- Atebolrwydd bridwyr a chysylltiadau â throseddu cyfundrefnol/gwyngalchu arian

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, y byddai aelodau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (WAHWFG) yn cynnal adolygiad o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Penododd WAHWFG Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gwblhau'r adolygiad. Adolygodd y grŵp y rheoliadau a gwneud nifer o argymhellion. Un ohonynt oedd diwygio Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014<sup>8</sup> i wella safonau lles mewn cyfleusterau bridio cŵn trwyddedig. Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol, milfeddygon mewn amrywiaeth o swyddi, cynrychiolwyr y sectorau lles anifeiliaid a bridio cŵn a pherchnogion cŵn<sup>9</sup>.

Prif argymhellion yr adolygiad oedd:

- Rhagor o hyfforddiant ar agweddau corfforol, cymdeithasoli a gwella sy'n ymwneud â lles anifeiliaid da mewn sefydliadau bridio cŵn.
- Mae angen gwella'r gallu i olrhain cŵn er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol. Dylid ystyried cofrestru pob bridwr cŵn.
- Dylid ystyried cymhareb o un aelod staff o leiaf fesul 10 ci llawn dwf i sicrhau lles da.
- Dylid ystyried ac adolygu darnau eraill o ddeddfwriaeth fel mater o frys; yn enwedig y rheoliadau ar ficrosglodion i gynyddu cydymffurfiaeth.

Yn ogystal â diwygiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 cefnogodd y grŵp waharddiad ar werthu cŵn a chathod bach drwy drefniant trydydd parti masnachol hefyd.

Ar 12 Tachwedd 2019, cyfarfu Prif Swyddog Milfeddygol Cymru â Phrif Weithredwyr a chynrychiolwyr eraill o'r Awdurdodau Lleol/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Nododd trafodaeth agored yn y cyfarfod hwn broblemau fel rhwystrau i orfodi, rheoli'r galw am gŵn bach, adnoddau i ymateb i broblemau a phryderon lles anifeiliaid, a phroblemau gyda'r ddeddfwriaeth bresennol ar ficrosglodion. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Awdurdodau Lleol a Gweinyddiaethau Llywodraethau eraill y DU i sicrhau ein bod ni'n cyflwyno newidiadau a fydd yn cael effaith hirdymor ar safonau lles cŵn a chathod sy'n cael eu magu yng Nghymru.

## Y sefyllfa bresennol mewn rhannau eraill o'r DU

### Lloegr

Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau yn ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018<sup>10</sup>. Cyflwynodd y rheoliadau weithdrefnau trwyddedu newydd ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, llety i gathod a chŵn, llogi ceffylau, bridio cŵn a chadw neu hyfforddi anifeiliaid ar gyfer eu harddangos.

---

<sup>8</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3266/contents/made>

<sup>9</sup> <https://llyw.cymru/brido-cwn-adolygiad-rheoliadau-lles-anifeiliaid-bridio-cwn-cymru-2014>

<sup>10</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485>

Mae diwygiad i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau yn ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018 a gyflwynwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau yn ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019<sup>11</sup>, yn gwneud gwerthu cŵn a chathod bach (o dan chwe mis oed yn y naill achos a'r llall) gan weithwyr trydydd parti/unrhyw un heblaw'r bridwr yn anghyfreithlon. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2020 yn Lloegr.

## **Yr Alban**

Ym mis Medi 2018 lansiodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad i gasglu sylwadau ar gynigion i gyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer trwyddedu gweithgareddau bridio cŵn, cathod a chwingod yn yr Alban. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried sut y gellir pennu trothwyon trwyddedu yn dibynnu ar faint y gweithgaredd a sut y gallai hyn weithio i sefydliadau â sawl safle. Mae gwaith yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

## **Gogledd Iwerddon**

Yn ystod 2018, adolygodd yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sefydliadau anifeiliaid yng Ngogledd Iwerddon, yn cynnwys rhai sy'n gwerthu anifeiliaid anwes. Yn 2019, ymgysylltodd â chyrrff gorfodi yng Ngogledd Iwerddon a chael eu barn ar system drwyddedu ar gyfer y dyfodol. Mae DAERA yn parhau i ddatblygu cynigion ar system ar gyfer y dyfodol, y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ei chylch yn y pen draw.

## **Beth fydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei wneud?**

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i lunio deddfwriaeth i hybu lles anifeiliaid o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Bydd y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â gwerthu cŵn chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Drwy sicrhau bod bridwyr trwyddedig yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn unig bydd modd gwella tryloywder mewn safleoedd bridio a lleihau'r angen i gŵn a chathod bach wneud sawl taith. Bydd angen i unrhyw un sydd am brynu ci neu gath fach yng Nghymru brynu gan fridiwr neu fabwysiadu o ganolfan ailgartrefu.

Dylai'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r problemau gryfhau arfer gorau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i anifeiliaid anwes gan fridwyr cyfrifol. Dylai hyn wella lles mewn sefydliadau bridio.

Mae pryderon y gallai gwerthiant trydydd parti masnachol fod yn gysylltiedig â phrynu heb ystyried y peth. Mae canlyniadau i hyn nid yn unig i'r anifail ond i'r perchnogion, gan gynnwys biliau milfeddyg annisgwyl, problemau gyda chymdeithasoli, a chynnydd yn nifer yr anifeiliaid anwes sy'n cael eu gadael neu'n gorfod cael eu hail-gartrefu. Y rhesymeg y tu ôl i wahardd gwethu cŵn a chathod bach gan drydydd parti masnachol yw y bydd yn gwarchod lles yr anifeiliaid ac mae yn gam pwysig tuag at wella'r safonau mewn sefydliadau bridio.

---

<sup>11</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111186954>



Byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn;

- Sichrau cysondeb gyda cyngor Llywodraeth Cymru y dylai prynwyr geisio gweld y cŵn neu'r cathod bach gyda'u mam
- Cymell gwelliannau lles mewn sefydliadau bridio cŵn masnachol prysur iawn drwy sicrhau eu bod yn dryloyw, yn atebol ac yn talu eu bridwyr yn iawn.
- Helpu prynwyr i wneud dewisiadau doeth yn seiliedig ar weld ci neu gath fach gyda'u mam ac annog penderfyniadau prynu cyfrifol.
- Gwerthu llai o gŵn bach sydd heb gael eu magu i'r safonau lles cydnabyddedig yng Nghymru.

## **Y Cwestiynau**

Rydym wedi cynnwys rhestr o gwestiynau drosodd. Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i gefnogi'ch atebion.

**Ffurflen  
Ymateb i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn gymwys):

e-bost / rhif ffôn:

Y wlad lle rydych chi'n byw:

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu darparu i'r cyhoedd, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

**Cwestiwn 1:**

Rydym yn cynnig cyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Mae "gwerthiant masnachol drwy drydydd parti" yn golygu'r rhai sy'n werthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig; yng Nghymru, y rhai sydd â thrwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951. Ein diffiniad o "gŵn bach" a "chathod bach" yw cŵn a chathod hyd at 6 mis oed.

**Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yng Nghymru?**

Eglurwch y rheswm dros eich ateb a darparu tystiolaeth ategol.

**Cwestiwn 2:**

**Ydych chi'n credu y dylai gwaharddiad fod yn berthnasol i unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu gwerthu mewn siopau anifeiliaid anwes?**

**Eglurwch y rheswm am eich ateb gan gynnwys pa anifeiliaid a rhowch dystiolaeth atodol.**

**Cwestiwn 3:**

**Oes yna fesurau y gellid eu cyflwyno, heblaw gwaharddiad, a allai fynd i'r afael â'r problemau lles sy'n gysylltiedig â rhai bridwyr a gwerthwyr trydydd parti masnachol?**

Eglurwch eich ateb a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

**Cwestiwn 4:**

Nid yw llochesau a chanolfannau ailgartrefu wedi'u diffinio'n gyfreithlon ond byddwn yn cyfeirio atynt fel sefydliadau lles anifeiliaid at ddiben yr ymgynghoriad hwn. Maent yn codi ffi ar gyfer ailgartrefu anifeiliaid sydd yn eu gofal (ond maent wedi'u heithrio o reoliadau trwyddedu anifeiliaid anwes presennol gan nad ydynt yn fasnachol eu natur). Nid oes gofyniad cyfreithiol i gynnal gwiriadau ac yn gyffredinol, nid yw Awdurdodau Lleol yn cynnal gwiriadau rheolaidd yn y sefydliadau hyn.

Hefyd, rydym yn pryderu y gallai hyn adael bwch yn y ddeddfwriaeth i osgoi gwaharddiad posibl.

### **Ydych chi'n credu y dylid craffu'n fanylach ar sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru?**

Eglurwch y rheswm dros eich ateb a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

#### **Cwestiwn 5:**

Ydych chi'n credu y dylid ystyried canolfannau ailgartrefu/achub fel gwerthwr trydydd parti yng Nghymru? A ddylent gael trwydded?

Eglurwch y rheswm dros eich ateb a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

**Cafodd y cwestiynau canlynol eu holi gan bod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb a Bioamrywiaeth.**

#### **Cwestiwn 6:**

**Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y gallai gwaharddiad ar werthiannau masnachol drwy drydydd parti ei gael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>12</sup>. Y nodweddion hyn yw:**

- oedran;
- anabled;
- ailbennu rhywedd;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gred;
- rhyw; a
- chyfeiriadedd rhywiol. Pa effeithiau y gallai ei gael yn eich barn chi?

Nodwch yma:

#### **Cwestiwn 7:**

**Hoffem gael eich barn ar a allai'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti masnachol gynnig unrhyw gyfleoedd i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn unol â Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.<sup>13</sup>**

---

<sup>12</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

<sup>13</sup> <https://www.biodiversitywales.org.uk/Nature-Recovery-Action-Plan>

**Pa effeithiau y gallai ei gael yn eich barn chi?**

Nodwch yma:

### **Cwestiwn 8: Y Gymraeg**

**Hoffem gael eich barn ar effeithiau gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fydd yr effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai newid mewn polisi gael ei ffurfio neu ei newid fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### **Cwestiwn 9:**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi gofyn amdanynt neu os oes gennych chi unrhyw sylwadau defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ac unrhyw dystiolaeth ategol.